YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN

Cawsom iaith i'w chadw

# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB
Pennaeth: Miss C. Evans

Ffôn:01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, mae eich plentyn wedi derbyn lle i fynychu'r Dosbarth Derbyn yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân gan ddechrau ym mis Medi 2018.

Mae cychwyn ysgol llawn amser yn gam mawr i unrhyw blentyn ac er mwyn hwyluso mynediad eich plentyn i'n hysgol rydyn ni wedi trefnu cyfarfod yn neuadd yr ysgol am 1.30 o'r gloch ar brynhawn dydd Llun yr 11eg o Fehefin 2018. Rhoddir y cyfarfod y cyfle i chi edrych o gwmpas yr ysgol a'r Dosbarth Derbyn. Rhoddir i chi hefyd y gwaith papur priodol ar gyfer mynediad i'r ysgol ym mis Medi a'r cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn ogystal â hyn mae cyfle i'ch plentyn fynychu sesiwn blasu yn y Dosbarth Derbyn ar ddydd Iau 5ed o Orffennaf rhwng 10-45 a 12 o'r gloch. Mae'r sesiwn yn rhoi i'ch plentyn y cyfle i gael cyflwyniad i arferion y Dosbarth Derbyn ac i gwrdd â'r staff yno. Nodwch y trefniadau isod os gwelwch yn dda?

**Plant Meithrin y bore**- dewch â'ch plentyn i'r sesiwn bore erbyn 9.00 o'r gloch yn ôl yr arfer. Byddwn ni'n eu tywys i'w dosbarth newydd erbyn 10.45. Mae angen eu casglu o **BRIF FYNEDFA'R YSGOL am 12 o'r gloch (nid o'r Feithrin).**

**Plant Meithrin y prynhawn a phlant sydd yn newydd i'r ysgol**. Dewch â'ch plentyn i **BRIF FYNEDFA'R YSGOL erbyn 10.40** a byddant yn cael eu casglu gan aelodau o staff a'u tywys i lawr i'r Dosbarth Derbyn. Mae angen eu casglu o **BRIF FYNEDFA'R YSGOL am 12 o'r gloch.**

Estynnwn wahoddiad cynnes i'ch plentyn gan obeithio ei gweld/weld ar y 5ed o Orffennaf.

Yn gywir

Rhian Sennitt
Arweinydd Meithrin a Derbyn